Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Cyllideb Derfynol 2011-2012: 'Asesu'r Effaith ar ydraddoldeb' a'r 'Cynnydd o ran yr Agenda Effeithlonrwydd ac Arloesi'**

**Dyddiad:** **7 Chwefror 2011**

**Gan:** **Jane Hutt AC, Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**

Ar 1 Chwefror, cyflwynais y Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2011-12 yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2011-12, fe gyfeiriais at ddwy ddogfen bwysig a fyddai'n cael eu cyhoeddi yr wythnos hon mewn perthynas â'n cynlluniau gwariant.

Yn gyntaf, fe ddywedais y byddem yn cyhoeddi asesiad llawn o effaith ein cynigion ar gyfer y Gyllideb ar gydraddoldeb. Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o broses y Gyllideb. Mae hyn yn mynd gam ymhellach na'r hyn y mae gofyn i ni ei wneud yn statudol ac mae'n arwydd o ba mor benderfynol ydym ni i barhau i gryfhau a gwella yn y maes hwn.

Yn ail, yng nghyd-destun y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi, fe gadarnheais y byddem yn cyhoeddi mwy o wybodaeth yr wythnos hon ar ddatblygu'r fframwaith mesur a fydd yn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws y sector cyhoeddus i wneud arbedion.

Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Gallwch weld Copïau yn:

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

http://wales.gov.uk/cisd/reports/finance/equalityimpacts/equalityimpactassessment?lang=en

Cynnydd o ran yr Agenda Effeithlonrwydd ac Arloesi

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/